# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 11eg o Fedi 2024 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Wyn Evans (Cadair), Gerallt Davies a Jocelyn Andrew.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Eiddwen Merritt, Carys Morgan, Wyn Jones,
Ruby Williams, Hywel Lloyd a Garym Roberts.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Gorffennaf a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Mater cynllunio:**
A240595.
Haulfor, Aberaeron, Ceredigion. SA46 0EZ.
Newidiadau ac estyniad a wal y ffin gefn.
Dim Gwrthwynebiad.

**Cyfrifwyr Aeron:**
Derbyniwyd lythyr oddiwrth Cyllid a Thollau EM yn esbonio fod Cyfrifwyr Aeron eisiau gweithredu fel ein asiant ar ein rhan a phaswyd gan y pwyllgor y bydd hyn yn iawn.

**Ysgol Gyfun Aberaeron:**
Derbyniwyd lythyr oddiwrth Ysgol Gyfun Aberaeron yn gofyn i ni noddi'r Sioe Gerdd, 'High School Musical' am £250, fydd y siow yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd eleni. Paswyd yn unfrydol i'w noddi.

**Unrhyw fater arall:**
Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher yr 9fed o Hydref 2024.